T. LLEW JONES

Yn y dechreuad yr oedd y GWRANDO. Gwrando ar Mam yn adrodd stori-cyn-cysgu am hen Flaidd Cwmcerrig. Gwrando ar Mam-gu'n adrodd storïau am ysbrydion a chanhwyllau corff a thoiliod a Thylwyth Teg. Gwrando ar hen fechgyn gyda'r nos yn adrodd storïau 'celwydd-golau'.

Yna mynd i ysgol Capel Mair ac yno – pan o'n i tua saith oed – clywed y prifathro, Mr Davies, yn darllen stori bert am fabi bach yn cael ei adael mewn hen dollborth unig gan ddyn dierth a ddiflannodd i'r nos ar gefn ei geffyl. Wyddwn i ddim beth oedd teitl y llyfr hwnnw, ond fe benderfynais i o'r pryd hynny ymlaen 'mod i'n mynd i ddarllen llyfrau. A dyna wnes i wedyn –darllen a darllen a darllen.

Yna fe ddaeth yr awydd i sgrifennu storïau fy hunan. Sgrifennu oedd y peth gorau fedrwn i 'i neud yn yr ysgol. Ond aeth blynyddoedd heibio cyn i mi weld cyhoeddi fy nofel gyntaf, *Trysor Plasywernen*, ym 1958. Dros gyfnod o ugain mlynedd, sgrifennais rhyw 30 o lyfrau o bob math i blant.

Mae'r profiadau a gefais a'r llyfrau a ddarllenais yn blentyn bach, wedi cael dylanwad ar y llyfrau a sgrifennais ar ôl tyfu'n ddyn. Deuai carafannau sipsiwn i aros ar ddarn o dir comin ger tŷ Mam-gu ac fe fûm i'n chwarae gyda phlant y sipsiwn lawer gwaith. Mae fy nofel, *Tân ar y Comin*, yn sôn am sipsiwn ac mae'r prif gymeriad, sef Tim Boswel, yn rhywun y bûm i'n chwarae gydag ef. Fe wnaeth darllen *Treasure Island* yn blentyn i mi hoffi storïau am y môr. Wedyn ar ôl tyfu'n ddyn, symudais i fyw i lan y môr ger Llangrannog. Dyna sut y daeth *Trysor y Môrladron*, *Barti Ddu* a *Dirgelwch yr Ogof* i fod.

Yr hyn sy'n fy gwneud yn hapus bob amser yw derbyn llythyrau oddi wrth blant yn dweud iddynt fwynhau darllen un o'm llyfrau.

Rwy'n sgrifennu nofelau a phenillion i blant am fy mod i'n hoffi plant yn fwy na phobl mewn oed, ac yn eu deall yn well hefyd!

Llun/Dylan Williams





T Llew Jones

Dyddiad Geni / Hydref 11 1915

Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?
Bwlchmelyn, Pentrecwrt, Llandysul.

Ble cawsoch chi eich addysg?
Ysgol Gynradd Capel Mair (bellach wedi cau), Ysgol Uwchradd Llandysul, Coleg Hyfforddi Caerdydd.

Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?
Hoffi darllen a criced ac yn casau Mathemateg a Chemeg.

Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?
Awdur.

Beth oedd eich hoff lyfr yn blentyn?
Oliver Twist, *Treasure Island*.

Beth yw eich prif ddiddordebau?
Darllen, criced a gwyddbwyll.

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?
Cael llythyron oddi wrth blant sy wedi cael blas ar ddarllen fy storïau.

Beth sy'n eich gwylltio chi?
Cymry yn esgeuluso'r Gymraeg.

Pryd ddechreusoch chi feddwl am ysgrifennu?
Tua deg oed.

Pa un oedd eich llyfr cyntaf?
Trysor Plasywernen.

Ydych chi'n ei chael hi'n hawdd i ysgrifennu?
Weithiau – weithiau'n anodd.

O ble rydych chi'n cael eich syniadau?
Mae gen i ffynnon – ffynnon y dychymyg (sy wedi sychu erbyn hyn!)

Oes ganddoch chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?
Darllen a darllen a darllen…

Oes rhai o'ch cymeriadau wedi eu seilio arnoch chi?
Nag oes.

Pa un o'ch llyfrau chi yw eich ffefryn?
Rwy'n eu hoffi nhw i gyd!

Pa un yw eich hoff gymeriad?
Rwy'n ffrind i bob un.

Oes unrhyw beth yr hoffech chi ei newid amdanoch eich hunan?
Llawer iawn.

Pa raglenni teledu yw eich ffefrynnau?
Does gen i'r un.

Beth yw eich hoff fwyd?
Caws a ……, neu ……. a chaws, neu caws a……

Gwobrau

1976 Gwobr Tir na n-Og am *Tan ar y Comin*
1990 Gwobr Tir na n-Og am *Lleuad yn Olau*
1991 Tlws Mary Vaughan Jones am waith arbennig ym myd llyfrau plant.

Llyfrau T Llew Jones mewn print

Anturiaethau Twm Siôn Cati:
Dial o'r Diwedd 0863834213 £5.99
Y Ffordd Beryglus 1859020976 £5.95
Ymysg Lladron 0863834264 £4.95
Barti Ddu 1843233177 £5.99
Cri'r Dylluan 0850882443 £2.95
Cyfrinach y Lludw 1859020828 £3.50
Dirgelwch yr Ogof 0850884179 £5.95
Lleuad yn Olau 0863835651 (llyfr clawr caled) £12.95
Lleuad yn Olau 095460251X (CD llafar) £13.99
Modrwy Aur y Bwda a Storïau Eraill 1859025617 £2.50
Ofnadwy Nos 0850881064 £3.95
Penillion y Plant 0863836887 £6.75
Storïau Cwm-Pen-Llo 0863817505 £4.25
Tân ar y Comin 1859020399 £5.95
Trysor Plasywernen 071540721X £4.95
Un Noson Dywyll 1859021034 £5.95
Y Gelyn ar y Trên (addas. T. Llew Jones) 1859020348 £4.99
Y Môr yn eu Gwaed 1859025668 £2.50

CYNGOR LLYFRAU CYMRU 2004

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

gwales.com